Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Penmaenmawr
# Ysgol Pencae
# Craiglwyd Road
# Penmaenmawr
# Conwy
# LL34 6YG

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/09/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Penmaenmawr. Mae’r lleoliad yn cyfarfod mewn ystafell bwrpasol ar dir Ysgol Pencae, ym Mhenmaenmawr, Conwy.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i dderbyn hyd at 25 o blant rhwng dwy a phedair oed. Ariennir 6 o blant gan yr awdurdod lleol. Mae’n cynnig sesiynau o dair awr am bum bore’r wythnos am 41 wythnos o’r flwyddyn.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu’r lleoliad. Ychydig iawn o’r plant ddaw o gartrefi lle mae’r Gymraeg yn brif iaith.

Mae pedwar aelod o staff cymwysedig yn gweithio’n amser llawn yn y lleoliad. Mae’r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2014.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mawrth 2015 ac arolygwyd y lleoliad gan Estyn ym mis Gorffennaf 2011.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Anfoddhaol |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn anfoddhaol. Cryfderau'r lleoliad yw:

- bod mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafaredd
- bod plant yn hapus yn dod i'r lleoliad ac yn ymgartrefu'n dda
- bod ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd addas i sichrau cydbwysedd rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion

Fodd bynnag, mae'r meysydd sydd angen eu gwella yn gorbwyso cryfderau'r lleoliad oherwydd:

- bod medrau ysgrifennu a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) bron pob plentyn yn gyfyngedig
- bod gallu bron pob plentyn i ddefnyddio'r ystod lawn o fedrau rhifedd yn wan
- ni roddir digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws yr holl feysydd dysgu
- nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod profiadau yn arwain at godi safonau yn ddigon effeithiol
- nid yw systemau asesu yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn anfoddhaol. Cryfderau'r lleoliad yw bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth gadarn i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn amgylchedd meithringar
- yr ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- gan y lleoliad ychydig o bartneriaethau effeithiol sy'n cyfrannu'n fuddiol at wella safonau a lles y plant

Fodd bynnag, mae'r meysydd sydd angen eu gwella yn gorbwyso cryfderau'r lleoliad oherwydd:

- nid oes gan y pwyllgor rheoli wybodaeth ddigon cadarn am berfformiad y lleoliad
- bod diffyg cyfeiriad strategol gan arweinwyr yn rhwystro datblygiad y lleoliad
- bod elfennau pwysig o hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant y lleoliad angen eu gwella
- nad yw'r lleoliad wedi mynd i'r afael ag argymhellion o'r arolygiad Estyn blaenorol

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd pwrpasol a chyson i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar a rhifedd plant ar draws yr holl feysydd dysgu

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu plant

A3 Sicrhau bod profiadau dysgu yn cynnig her briodol er mwyn bodloni anghenion plant o bob gallu

A4 Defnyddio gwybodaeth asesu yn fwy effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu

A5 Gwella'r arweinyddiaeth, gan gynnwys y pwyllgor rheoli, i sicrhau eu bod yn gosod cyfeiriad strategol pendant i'r lleoliad

A6 Cryfhau'r gweithdrefnau hunanarfarnu er mwyn adnabod yr holl gryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant a gweithredu arnynt

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Rwyf fi o'r farn, ac mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn cytuno, bod angen gwelliant â ffocws mewn perthynas â'r lleoliad hwn. Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Mae tua hanner y plant yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd o'u mannau cychwyn, yn enwedig yn eu medrau llafaredd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r rhan fwyaf o blant yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu dysgu. Mae'r mwyafrif yn dechrau dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn addas ac yn cydweithio'n briodol, er enghraifft wrth baratoi teisen yn y gegin fwd.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r iaith Gymraeg yn fuan ar ôl dechrau yn y lleoliad. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn addas, er enghraifft wrth helpu yn ystod amser tacluso. Gall ychydig ymateb ar lafar yn y Gymraeg yn effeithlon wrth chwarae yn yr ardaloedd dysgu. Defnyddiant eiriau ac ymadroddion syml o bryd i'w gilydd wrth chwarae rôl yn y gegin fwd ac wrth adrodd rheolau'r lleoliad. Mae tua hanner y plant yn gwrando'n ofalus yn ystod sesiynau canu. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn gweithredu yn unol â nhw yn briodol, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r iaith. Fodd bynnag, mae medrau gwrando lleiafrif o blant yn wan ac nid ydynt bob amser yn dilyn cyfarwyddiadau.

Mae lleiafrif o'r plant yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardal ddarllen yn briodol. Maent yn dilyn print o'r chwith i'r dde ac yn dechrau deall bod gan brint ystyr yn addas. Maent yn deall diben y darluniau ac yn adnabod gwahanol gymeriadau yn y storïau yn effeithiol, er enghraifft cymeriadau o storïau traddodiadol. Mae medrau ysgrifennu cynnar bron pob un plentyn yn wan.

Mae ychydig o blant yn defnyddio ystod gynyddol o iaith fathemategol yn addas mewn chwarae digymell, er enghraifft wrth greu teisen fwd. Maent yn defnyddio geirfa fel mwy, llai, mawr a bach yn briodol wrth gymharu cyfarpar. Mae tua hanner y plant yn dechrau rhifo wrth gyfri adnoddau, er enghraifft wrth gyfri canhwyllau i'r teisennau. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth o gyfrif yn briodol wrth gyfri faint o blant sydd yn y lleoliad bob dydd yn ystod amser cylch. Mae tua hanner y plant yn ymuno mewn canu rhigymau rhif yn ystod amser cylch ac wrth frwsio dannedd. Fodd bynnag, prin yw gallu bron pob un plentyn i ddefnyddio'r ystod lawn o fedrau rhif ar draws yr ardaloedd dysgu.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol a chymwys. Maent yn neidio'n llwyddiannus ac yn taflu peli gyda rheolaeth gynyddol. Maent yn reidio beiciau yn hyderus ac yn defnyddio'u medrau corfforol. Fodd bynnag, mae medrau mudol mân bron bob un disgybl fel marcio cynnar, defnyddio siswrn a pheintio yn gyfyngedig. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn wan.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r plant yn dod i'r lleoliad yn hapus ac yn hyderus. Mae llawer yn ymddwyn yn addas a chwrtais. Maent yn gwrando'n ofalus ar oedolion, er enghraifft wrth addurno coron i barti'r brenin. Fodd bynnag, mae ymddygiad ychydig o blant yn

effeithio ar allu plant eraill i ganolbwyntio yn ystod tasgau a sesiynau torfol. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu dysgu hwy a dysgu'r plant eraill. Ar y cyfan, mae mwyafrif y plant yn trin ei gilydd ac ymarferwyr gyda pharch.

Mae mwyafrif y plant yn gwneud dewisiadau ynglŷn â beth a ble maent eisiau dysgu wrth chwarae yn yr ardaloedd yn briodol. Mae'r mwyafrif yn mwynhau gweithgareddau ymarferol ac yn gallu cydweithio'n addas am gyfnodau yn effeithlon. Maent yn canolbwyntio ar dasgau am gyfnodau addas. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt greu teisennau yn y gegin fwd ac wrth adeiladu castell yn yr ardal adeiladu. Fodd bynnag, nid yw medrau canolbwyntio lleiafrif o blant wedi datblygu'n briodol.

Mae ychydig o blant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn addas. Gall y mwyafrif wneud dewisiadau am yr hyn y byddent yn hoffi ei wneud yn y sesiynau chwarae rhydd. Mae rhan fwyaf y plant yn dechrau deall bod ganddynt hawliau fel unigolion a bod ganddynt ddewis i wneud penderfyniadau dros eu hunain ac i fynegi barn. Er enghraifft, maent yn penderfynu parhau â thasgau penodol, neu i roi'r gorau i'w gwneud. Mae'r mwyafrif o blant yn deall pwysigrwydd hylendid personol wrth iddynt frwsio eu dannedd yn ddyddiol yn y lleoliad.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae'r lleoliad yn cynnig ychydig o brofiadau dysgu amrywiol yn yr ardal dan do a thu allan i ennyn diddordeb mwyafrif y plant. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn dechrau cynllunio gyda'i gilydd ar lafar yn briodol er mwyn darparu cwricwlwm addas. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn sicrhau cyfleoedd cadarn er mwyn datblygu medrau ysgrifennu, rhifedd a TGCh y plant. Nid yw'r cynllunio ychwaith yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall diben pob gweithgaredd. O ganlyniad, nid yw'r cynllunio yn cael digon o effaith ar godi safonau neu'n herio plant yn ddigon effeithiol.

Yn ddiweddar, mae ymarferwyr yn dechrau cynllunio'n fwy systematig ar gyfer datblygu medrau llafaredd y plant drwy ddilyn cynllun gwaith newydd. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n briodol ar gyrhaeddiad blaenorol mwyafrif y plant. Mae'r ymarferwyr yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ailadrodd cymalau a chwestiynau ymestynnol. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd effeithiol o ganu er mwyn atgyfnerthu dysgu blaenorol. O ganlyniad, mae'r mwyafrif o blant yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafaredd. Fodd bynnag, prin iawn yw'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar tu fewn a thu allan.

Rhoddir cyfleoedd addas i blant ddysgu yn yr awyr agored yn achlysurol yn ystod sesiynau chwarae di-strwythur. Mae hyn yn datblygu medrau echddygol mawr y plant yn briodol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r ffrâm ddringo, llithren a beiciau. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau yn ddigon bwriadus er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad ar draws y meysydd dysgu.

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn gwneud defnydd addas o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, mae ymweliad gan person trin gwallt a theithiau cerdded natur i'r goedwig leol yn ychwanegu diddordeb at y cwricwlwm yn briodol.

## Addysgu: Digonol

Mae ymarferwyr yn cyfarch pob plentyn yn gynnes wrth iddynt gyrraedd y lleoliad. Maent yn rhyngweithio'n briodol gyda'r plant. Mae hyn yn arwain at berthynas glòs rhwng yr ymarferwyr a phlant. Yn gyffredinol, maent yn rheoli ymddygiad plant yn addas, er nid oes ganddynt strategaethau digon cadarn ar adegau i ddelio ag ymddygiad heriol. Rhoddir cyfleoedd addas i blant wneud dewisiadau yn yr ardaloedd dysgu. Mae ymarferwyr yn cynnig cefnogaeth berthnasol i blant pan fo angen. Maent yn cynllunio cyfleoedd addas sy'n sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion. Mae hyn yn datblygu medrau annibyniaeth y plant yn addas. Mae ymarferwyr yn cynllunio ychydig o gyfleoedd addas i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau priodol ar gyfer y rhan fwyaf o blant ac maent yn herio plant yn gymwys mewn ychydig o dasgau. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob tro'n teilwra gweithgareddau i fodloni anghenion pob plentyn ac nid ydynt yn herio plant yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw plant yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu dysgu. Mae'r mwyafrif o ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol yn chwarae'r plant. Mae ymarferwyr yn holi plant yn addas er mwyn datblygu medrau meddwl a chyfathrebu. Mae hyn yn amlwg wrth drafod faint o gynhwysion sydd eu hangen i wneud teisennau mwd ac am ba hyd roedd angen eu coginio.

Mae ymarferwyr yn cofnodi asesiadau perthnasol mewn llyfryn cofnodi ac maent yn rhoi darlun addas o gyrhaeddiad plant uniogol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn ddigon trylwyr.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r lleoliad yn cynnig ychydig o gyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio trafodaethau grŵp i drafod rheolau'r lleoliad yn ystod gweithgareddau amser cylch yn addas. Mae hyn yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch ymysg y plant yn briodol.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae gan y lleoliad weithdrefnau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn dechrau deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw, er enghraifft wrth ddewis ffrwyth iachus yn ystod amser byrbryd.

Mae profiadau dysgu yn annog datblygiad moesol a chymdeithasol y plant yn gymwys. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio amser byrbryd i annog plant i ddysgu cyd-fwyta, rhannu ac aros eu tro. O ganlyniad, mae llawer o blant yn datblygu dealltwriaeth briodol o sut i uniaethu â dyheadau pobl eraill. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn darparu digon o gyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o gynaliadwyedd.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo pwysigrwydd glendid personol drwy annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd, ac i frwsio eu dannedd yn ystod y sesiwn bore. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ymestyn annibyniaeth y plant ymhellach drwy roi cyfrifoldebau iddynt.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o'r plant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn targedu plant â chymorth ychwanegol yn addas, pan fydd ei angen. Mae ymarferwyr yn trafod y plant hyn gydag asiantaethau priodol er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag y bo modd.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i greu ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol yn y lleoliad. Caiff bechgyn a merched yr un cyfle i fanteisio ar adnoddau a gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn hyrwyddo cydweithio a thegwch yn gyson. Er enghraifft, nid oes cyfleoedd i ddathlu amrywiaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar ymwybyddiaeth plant o sut i fod yn oddefgar.

Mae ymarferwyr yn defnyddio arddangosfeydd i ddathlu ymdrechion plant yn addas. Maent yn rhoi cyfleoedd dyddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol yn gymwys. Maent yn galluogi plant i archwilio ac arbrofi ar offer dringo yn y parc, rhedeg o gwmpas yn egnïol ac i ddefnyddio beiciau a sgwteri yn ddiogel yn ystod amser chwarae.

Mae gan y lleoliad ystod addas o adnoddau ar gyfer symbylu'r plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd diddorol i'r plant chwarae'n ddychmygus, er enghraifft yn y siop trin gwallt, byd bach, tywod a'r gegin fwd. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob tro'n gwneud defnydd digon effeithiol o'r adnoddau, yn enwedig wrth feithrin a datblygu medrau ysgrifennu, rhifedd a TGCh y plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn amgylchedd meithringar. Mae'r arweinydd a'i thîm yn ymroddedig i gefnogi a gofalu am bob plentyn i sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Maent yn deall eu cyfrifoldebau'n briodol ac yn cydweithio'n dda, gan rannu gwerthoedd ac amcanion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynnwys y staff yn ddigon effeithiol wrth hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Nid oes pwyllgor rheoli ffurfiol yn ei le i dderbyn adroddiadau neu adborth am gynnydd gan yr arweinydd. Nid yw'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac nid oes ganddynt wybodaeth drylwyr am berfformiad y lleoliad. O ganlyniad, mae diffyg cyfeiriad strategol gan arweinwyr yn rhwystro datblygiad y lleoliad. Mae'r pwyllgor yn monitro'r gwariant o gyllideb gyfredol y lleoliad ac maent wedi ei harchwilio yn ffurfiol.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cyflwyno prosesau boddhaol i reoli perfformiad y staff yn flynyddol. Gan nad oes pwyllgor cwbl weithredol yn y lleoliad, nid yw perfformiad yr arweinydd wedi bod yn rhan o'r prosesau hyn. Mae'r hyfforddiant y mae'r staff yn ei gael yn datblygu eu hymwybyddiaeth o ddatblygiad plentyn a gwella'r ddarpariaeth yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gweithredu yn sgîl yr hyfforddiant ac nid yw'r hyfforddiant yn cael digon o effaith ar wella'r ddarpariaeth a safonau plant.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi sylw addas i ychydig o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn llwyddo i hyrwyddo bwyta'n iach yn addas ynghyd â dysgu plant am bwysigrwydd gofalu am eu dannedd. Mae arweinwyr yn dechrau rhoi sylw priodol i'r fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wrth gynllunio. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar a rhifedd plant.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae elfennau pwysig o hunanarfarnu'r lleoliad sydd angen eu gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod ychydig o feysydd perthnasol i'w datblygu. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu'n gadarnhaol er mwyn codi safonau'r plant a gwella'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth wella medrau llafaredd. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu yn adnabod y mwyafrif o feysydd i'w datblygu gyda'r un trylwyredd, yn arbennig o ran arweinyddiaeth, asesu a'r ddarpariaeth. Mae cyswllt digonol rhwng deilliannau'r hunanarfarnu a'r targedau yn y cynllun gwella. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu, targedau amserol a meini llwyddiant yn ddigon effeithiol i sicrhau bod y lleoliad yn gweithredu'n llwyddiannus i ddatblygu'r rhain. Er eu bod wedi derbyn cefnogaeth ac arweiniad gan yr awdurdod lleol, mae prosesau'r lleoliad ar gyfer hunanarfarnu a gweithredu gwelliant yn parhau i fod yn aneffeithiol. Mae argymhellion yn dilyn yr arolygiad blaenorol yn parhau i fod yn agweddau i'w datblygu, er enghraifft y defnydd o asesiadau, datblygu'r hunanarfarnu ymhellach, a sicrhau bod y pwyllgor rheoli yn wybodus am berfformiad y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn dechrau ceisio cynnwys barn pob ymarferydd am ansawdd y ddarpariaeth a'r cynllunio. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys yr holl randdeiliaid gan gynnwys rhieni a'r pwyllgor rheoli fel rhan o'r broses.

Mae ymarferwyr yn derbyn syniadau newydd defnyddiol trwy hyfforddiant, ac yn dilyn ychydig o argymhellion oddi wrth yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin, er enghraifft wrth ddatblygu'r iaith Gymraeg yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn gweithredu yn sgîl hyfforddiant perthnasol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan y lleoliad ychydig o bartneriaethau effeithiol sy'n cyfrannu'n fuddiol at wella safonau a lles y plant, er enghraifft wrth weithredu cynllun i hyrwyddo bwyta a byw'n iach gyda chefnogaeth iaith y Mudiad Meithrin. Mae perthynas y lleoliad gyda rhieni yn gadarnhaol iawn ac maent yn gwerthfawrogi'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr. Fodd bynnag, ychydig o gyfleoedd sydd i'r lleoliad rannu gwybodaeth am ddatblygiad y plant ac i annog rhieni i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant a bywyd y lleoliad.

Mae cysylltiadau cadarn yn bodoli gyda'r ysgol gynradd leol trwy ymweliadau pontio a chyd-rannu'r defnydd o'r ardaloedd allanol. Mae'r lleoliad yn defnyddio ystod eang o dir yr ysgol i gynnig profiadau darganfod i'r plant, er enghraifft wrth iddynt ymchwilio am drychfilod yn y goedwig. Mae'r ysgol yn cefnogi'r lleoliad wrth sicrhau adnoddau angenrheidiol.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth briodol gydag amrywiaeth o asiantaethau i gefnogi'r plant a'r ymarferwyr yn ôl y galw. Mae'r lleoliad yn cydweithio'n dda gyda'r swyddog

iach cyn-ysgol wrth drefnu ymweliad gan gymeriad o lyfrau i hyrwyddo iechyd a lles y plant mewn modd bywiog a diddorol. Mae ychydig o aelodau'r gymuned yn ymweld â'r lleoliad. Er enghraifft, roedd ymweliad person trin gwallt i'r lleoliad wedi cyfoethogi profiadau uniongyrchol y plant yn effeithiol wrth iddynt gael cyfle i chwarae rôl yn y siop trin gwallt.

Mae'r ymarferwyr yn cynnal ychydig o weithgareddau codi arian gan nad yw'r pwyllgor presennol yn gwbl weithredol ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn cael anhawster denu pobl i ymgymryd â dyletswyddau'r pwyllgor rheoli.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cefnogol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi a cheisio herio'r ymarferwyr trwy ymweliadau a sicrhau bod hyfforddiant perthnasol yn cael dylanwad ar fedrau'r plant yn y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae arweinwyr yn rheoli staff, adnoddau a'r cyllid yn briodol. Maent yn defnyddio arbenigedd y staff yn dda ac maent yn gweithio'n gymwys fel tîm i wella cyflawniadau'r plant, er enghraifft wrth godi safonau medrau llefaredd y plant. Mae gwybodaeth y staff yn datblygu'n gadarn drwy hyfforddiant priodol fel arweiniad gan y Mudiad Meithrin ar y Gymraeg a sut i ddatblygu iaith y plant yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn briodol. Fodd bynnag, nid oes gan y lleoliad amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi holl feysydd y Cyfnod Sylfaen ac nid ydynt bob amser o fewn cyrraedd y plant. O ganlyniad, nid yw'n caniatáu i blant ddatblygu eu hannibyniaeth yn effeithiol.

Nid yw'r pwyllgor rheoli yn llwyddiannus wrth ymgymryd â'u dyletswyddau wrth ddatblygu a chefnogi staff a sicrhau bod strategaethau i wella yn effeithiol. O ystyried y safonau, y ddarpariaeth a'r meysydd pwysig i'w gwella sy'n perthyn i'r arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r lleoliad yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 14 | 10<br>71%<br>79% | 4<br>29%<br>21% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| My child likes this setting. | 14 | 11<br>79%<br>84% | 3<br>21%<br>16% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 14 | 12<br>86%<br>86% | 2<br>14%<br>14% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| My child is making good progress at the setting. | 14 | 11<br>79%<br>81% | 3<br>21%<br>19% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| Children behave well in the setting. | 14 | 8<br>57%<br>71% | 6<br>43%<br>28% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| Teaching is good. | 14 | 9<br>64%<br>80% | 5<br>36%<br>19% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 14 | 11<br>79%<br>83% | 3<br>21%<br>16% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 14 | 12<br>86%<br>76% | 2<br>14%<br>24% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at the setting. | 14 | 13<br>93%<br>84% | 1<br>7%<br>15% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 14 | 7<br>50%<br>72% | 3<br>21%<br>27% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 14 | 8<br>57%<br>63% | 2<br>14%<br>31% | 4<br>29%<br>5% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 14 | 10<br>71% | 4<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 14 | 6<br>43% | 6<br>43% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 32% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 14 | 11<br>79% | 2<br>14% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 14 | 5<br>36% | 3<br>21% | 6<br>43% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 14 | 10<br>71% | 4<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 81% | 18% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Nerys Rogers | Arolygydd Cofnodol |
| Vanessa Bowen | Arolygydd Tîm |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |